01/04 /2020

Annwyl Swyddog Cyfrifol

Dynodi – mesurau dros dro

Gobeithiwn eich bod chi ac aelodau o'ch sefydliad mewn iechyd da yn y cyfnod anodd hwn.

Yn sgil y sefyllfa bresennol, rydym yn deall y gallai fod yn anodd cael tystiolaeth o gefnogaeth a / neu alw gan drydydd partïon sy'n ofynnol i gefnogi unrhyw gais am ddynodiad cychwynnol neu ddynodiad pellach. Rydym yn sylweddoli y gallai cyrff dyfarnu fod wedi ailddyrannu adnoddau mewnol i ddelio â COVID-19 ac rydym hefyd yn ymwybodol y gallai tarfu ar ganolfannau a dysgwyr arwain at fod angen mwy o amser ar rai dysgwyr i gwblhau cymwysterau a fydd yn dod i ben yn fuan.

Os ydych yn dymuno cyflwyno cymhwyster ar gyfer dynodiad cychwynnol yn ystod y misoedd nesaf ac yn profi anhawster o'r fath, cysylltwch â ni ar recognitionandapproval@qualificationswales.org a gallwn drafod hyn gyda chi gyda'r bwriad o gymryd agwedd bragmatig a chymesur.

Er mwyn osgoi bylchau posibl yn y ddarpariaeth ar gyfer canolfannau, rydym yn cyflwyno'r mesurau dros dro canlynol mewn perthynas â dynodiad pellach nes yr hysbysir yn wahanol:

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

- O ran cymwysterau sydd â Dyddiadau Gorffen Gweithredol rhwng nawr a Rhagfyr 2020, byddwn yn ymestyn Dyddiadau Gorffen Gweithredol (DGG) a Dyddiad Gorffen yr Ardystiad (DGA) am hyd at flwyddyn o'r DGG a'r DGA cyfredol heb dystiolaeth o alw na chefnogaeth
- O ran cymwysterau sydd â DGA rhwng nawr a Rhagfyr 2020, byddwn yn ymestyn DGA y cymhwyster am hyd at flwyddyn o'r DGA cyfredol heb dystiolaeth o alw na chefnogaeth

Cyflwynwch eich ceisiadau i ni trwy QiW, - yn lle uwchlwytho tystiolaeth o alw a chefnogaeth, rhowch sail resymegol fer i gefnogi'r estyniad rydych chi'n gofyn amdano.

Ar gyfer unrhyw estyniadau y tu hwnt i'r terfynau amser hyn, mae angen tystiolaeth o gefnogaeth arnom o hyd.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r broses neu'r gofynion dynodi, mae croeso i chi gysylltu â ni ar recognitionansapproval@qualificationswales.org a byddwn yn hapus iawn i'ch helpu.

Delyth Jones

Pennaeth Cymeradwyo a Dynodi/ *Head of Approval and Designation*

Cymwysterau Cymru / *Qualifications Wales*

Ffôn/*Tel*: 01633 373340

E-bost/*E-mail:* delyth.jones@qualificationswales.org